Cwestiynau Cyffredin Prawf Gwrthgyrff COVID-19

Rwyf yn gyflogwr/rheolwr ac rwyf wedi cwblhau'r ffurflen gyfeirio ar gyfer fy nhîm. At bwy rwy'n ei anfon?	Y cyfeiriad e-bost ar gyfer cyflwyno cyfeiriadau yw: BCU.Covid19AntibodyTestingHub@wales.nhs.uk Mae hefyd wedi'i gynnwys yn y pecyn cyfarwyddiadau ac ar y daenlen cyfeirio.
Rwy'n rheolwr Sector Iechyd ac rwyf wedi anfon cyfeiriad fy nhîm am brofion gyda'r tîm fflebotomi ond nid wyf wedi derbyn eu ffurflenni cais?	Rydym yn cael nifer o gyfeiriadau ac mae'n cymryd amser i'w prosesu nhw, argraffwch y ffurflenni a'u dychwelyd i'r labordy lleol ar gyfer casgliad. Byddwch yn amyneddgar, byddwn mewn cysylltiad â chi cyn gynted ag y maent ar gael i gael eu casglu.
Rwy'n weithiwr allweddol ac mae fy rheolwr wedi fy nghyfeirio at gael prawf ond nid wyf wedi cael galwad hyd yma?	Os ydych chi wedi cael eich cyfeirio at ein gwasanaeth sy'n cael ei gefnogi gan fflebotomi bydd ein tîm yn eich ffonio i drefnu apwyntiad. Dylech wybod ein bod yn cael nifer uchel iawn o gyfeiriadau ac fe all gymryd hyd at bythefnos i gysylltu â chi.
A allaf gael fy mlaenoriaethu i gael prawf gan fy mod yn meddwl bod COVID-19 arnaf / rwyf mewn grŵp risg uchel / rwy'n bryderus am ddychwelyd i'r gwaith / mae fy nghyflogwr wedi gofyn i mi gael prawf?	Nid ydym yn gallu blaenoriaethu unigolion i gael prawf. Nid yw'r prawf yn cynnig unrhyw wybodaeth y gellir seilio newid ymddygiad arni ac mae at ddibenion ymchwil yn unig.
Rwyf wedi methu dwy alwad gennych chi ac nid oes neb wedi fy ffonio'n ôl?	Byddwn yn ceisio eich ffonio dwywaith ac yna'n symud ymlaen at gyfeiriadau eraill. Os ydych chi wedi methu dwy alwad, bydd angen i chi ofyn i'ch rheolwr eich ail gyfeirio chi.
Pam bod yn rhaid i mi ddod i'r ganolfan Fflebotomi COVID-19 i gasglu sampl? A all fy nghydweithiwr gasglu fy sampl? A allaf fynd i'r gwasanaeth fflebotomi lleol ble rwyf yn gweithio?	Adnoddau cyfyngedig sydd gennym ar gyfer y gwasanaeth hwn ac felly rydym wedi'u lleoli yn y tair Canolfan - un ym mhob ardal y Bwrdd Iechyd. Ar gyfer timau clinigol sydd â staff fflebotomi medrus mae opsiwn i drefnu i dynnu gwaed yn lleol ond rhaid i'ch rheolwr gychwyn hyn trwy gyflwyno'r daenlen gyfeirio gywir Na, bydd samplau ond yn cael eu cymryd yn un o'r tair canolfan. Mae gwasanaethau tynnu gwaed lleol ar gyfer gofal cleifion ac nid oes capasiti i dynnu gwaed gweithwyr allweddol ar gyfer profion gwrth gorff COVID. Peidiwch â gofyn iddynt gasglu eich sampl.
Mae fy sampl wedi'i gyfeirio ond nid wyf wedi cael y canlyniad?	Bydd canlyniadau'n cael eu hanfon dros neges destun i'r rhif ffôn y gwnaethoch ei ddarparu ar y cyfeiriad. Mae'n hanfodol eich bod yn cwblhau'r maes rhif ffôn symudol yn gywir. Os nad ydych wedi cael eich canlyniad cyn pen saith niwrnod o gasglu eich sampl, e-bostiwch eich manylion at:BCU.Covid19TestingAndResultQueries@wales.nhs.uk bydd cydweithiwr yn cysylltu â chi.

Mae fy rhif ffôn symudol wedi'i fewnbynnu'n anghywir ar y daenlen cyfeirio. A oes modd ei gywiro?	Bydd angen i chi aros saith niwrnod ar ôl eich prawf ac yna cysylltu â'r e-bost ymholiadau fel y noder uchod. Ni allwn leoli cofnodion unigol ac addasu rhifau ffôn.
Pwy sydd gan fynediad at fy nghanlyniadau?	Bydd eich canlyniadau'n cael eu hanfon dros neges destun i'r rhif ffôn symudol a ddarperir ar y cyfeiriad a byddant yn cael eu cadw yn adran canlyniadau patholeg eich cofnodion electronig. Ni fydd eich canlyniad yn cael ei anfon at eich Meddyg Teulu ond fe all eich Meddyg Teulu neu glinigydd arall sydd â mynediad priodol chwilio eich hanes a gweld y canlyniad.
Beth mae fy nghanlyniad yn ei olygu?	Cyn eich prawf, dylech fod wedi cael copi o'r daflen wybodaeth sy'n egluro'r prawf a'i ddehongliad. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar wefan PBC yn yr adran Prawf, Olrhain, Diogelu ym maes COVID-19.
Rwyf wedi cael prawf negyddol ond rwyf wedi / meddwl fod COVID-19 wedi bod arnaf. A allaf gael ail brawf?	Gall canlyniad gwrthgorff COVID-19 negyddol ddilyn haint COVID hysbys. Mae lefel y gwrthgyrff sy'n bresennol yn amrywio rhwng unigolion ac yn lleihau gydag amser. Nid yw union natur ymateb imiwnedd 'cyffredin' yn hysbys ac mae'n un o'r cwestiynau rydym yn ceisio eu hateb gyda'r rhaglen profi dorfol hon.
Rwyf wedi cael prawf Gwrthgyrff COVID-19 positif, a yw hynny'n golygu fod COVID-19 arnaf?	Na, mae prawf gwrthgyrff positif yn golygu eich bod wedi cael eich amlygu i COVID-19 ond nid yw'n nodi eich bod wedi'ch heintio o hyd. Os nad oes gennych symptomau mwyach ac wedi cydymffurfio â chyngor cyfredol y llywodraeth ar hunan ynysu ar ôl haint, gallwch ddychwelyd i weithgarwch normal yn unol â mesurau cyfredol atal COVID. **Sylwer: NID yw canlyniad positif yn golygu eich bod yn imiwn ac mae'n rhaid i chi gadw at fesurau cenedlaethol a PBC ar atal COVID o hyd.**
Beth yw'r gwahaniaeth rhwng prawf gwrthgyrff COVID-19 a phrawf antigen (swab) COVID-19?	Defnyddir prawf Antigen COVID-19 (fel arfer swab a gymerir o'r trwyn neu'r gwddf) i ganfod presenoldeb y firws COVID-19 ac fe'i defnyddir i helpu i roi diagnosis o'r haint COVID-19. Defnyddir y prawf Gwrthgyrff COVID-19 i ganfod presenoldeb Gwrthgyrff i COVID-19 yn eich gwaed. Mae hyn yn canfod ymateb eich imiwnedd i COVID-19 ac fe'i defnyddir i helpu i ddynodi faint o bobl sydd wedi cael eu heintio.